

DYLECH WNEUD HYN GARTRE
#17
Yn cynnwys: Marfin a Milo
Yr hyn sydd ei angen arnoch:
• cwpan plastig neu bot iogwrt • clwtyn gwlyb
• darn o linyn llyfn
Hei Milo, beth am i ni ddynwared sŵn iâr!
I wneud fy un i, torrwch dwll yng ngwaelod cwpan plastig. Gofynnwch i oedolyn eich helpu.
Torrwch ddarn o linyn a'i wthio trwy'r twll. Clymwch gwlwm ym mhen y llinyn sydd y tu mewn i'r cwpan er mwyn ei atal rhag llithro'n ôl allan trwy'r twll.
Vic Le Billon
Cymerwch y clwtyn gwlyb a'i ddal yn dynn o amgylch y llinyn. Nawr, tynnwch y clwtyn yn gadarn ar hyd y llinyn er mwyn clywed y cwpan yn clwcian.
Mae tynnu'r clwtyn ar hyd y llinyn yn gwneud iddo ddirgrynu a chynhyrchu sain isel. Ond mae'r cwpan a'r aer sydd o'i amgylch yn dirgrynu hefyd, felly caiff y sain ei chwyddo ddigon i ni allu ei chlywed.
geiriau allweddol: chwyddo